

Cadw Anifeiliaid Anwes Gwybodaeth I Denantiaid Cyngor Caerdydd

Mae'r daflen hon yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi am gadw anifail anwes yn eich tŷ cyngor.

Rydym yn deall bod anifeiliaid anwes yn bwysig i nifer o denantiaid a'u teuluoedd, a hoffwn adael i chi eu cadw, ond mae'n rhaid i chi fod yn berchennog cyfrifol.

Cyn ystyried cadw unrhyw anifeiliaid anwes, mae angen i chi ddarllen y canlynol.

Ni chaiff unrhyw denent gadw'r anifeiliaid hyn:

- X Anifeiliaid fferm fel defaid, geifr, moch, gwartheg, ceffylau a merlod a cheiliogod.
- X Anifeiliaid peryglus y mae angen trwydded i'w cadw e.e. nadroedd a phryfaid cop gwenwynig, aligatoriaid a mwncïod.
- X Cŵn a waherddir h.y. Daeargi Pit Bull (a elwir hefyd yn Ddaeargwn American Staffordshireneu Irish Staffordshire) neu Dogo Argentino, Fila Brasileiro neu Tosa Siapaneaid.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Os ydych yn byw mewn tŷ, rhaid i chi ofyn caniatâd i gadw'r canlynol:

- ✓ Ieir a hwyaid.
- ✓ Colomennod Dychwel.

Nid oes angen caniatâd arnoch i gadw cŵn na chathod mewn tŷ, ond dim ond hyn a hyn ohonynt y gallwch eu cadw.

Os ydych yn byw mewn fflat, fflat ddeulawr neu lety gwarchod

Ni chaniateir i chi gadw:

X Ieir, hwyaid na cholomennod dychwel.

Gallwch gadw:

- ✓ Hyd at ddwy gath.
- ✓ Un ci gyda chaniatâd.

Nid yw fflat yn gartref addas i nifer o gŵn, yn enwedig cŵn mawr. Mae fflatiau aml-lawr ond yn addas i gŵn bach. Rhaid i chi wneud cais i gadw ci mewn fflat. Gofynnir i chi lofnodi Cytundeb Perchennog Ci Cyfrifol. Byddwch ond yn cael caniatâd os yw'r ci'n addas i'ch cartref.

Gellir tynnu caniatâd yn ôl os nad ydych wedi cydymffurfio â'r Cytundeb.

Gellir cadw anifeiliaid anwes eraill ar yr amodau canlynol:

- Nad ydynt yn achosi niwsans i bobl eraill;
- Nad ydynt yn difrodi eich eiddo, gardd na'r ardaloedd cymunedol;
- Eich bod yn cadw nifer resymol o anifeiliaid anwes;
- Eich bod yn darparu cyfleusterau addas iddynt ac yn gofalu am eu lles;
- Nad ydych yn torri'ch cytundeb tenantiaid mewn unrhyw ffordd arall.

Gwefannau diddorol

Cyngor Caerdydd www.cardiff.gov.uk

Defra www.defra.gov.uk/wildlife-pets/pets/dangerous/index.htm

Ymddiriedolaeth y Cŵn www.dogstrust.org.uk

PDSA www.pdsa.org.uk

RSPCA www.rspca-cardiff.org.uk

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am gadw anifeiliaid anwes gallwch gysylltu â'r Tîm Tenantiaeth:

Cyfeiriad:

Tîm Tenantiaeth
HANR Blwch SP 479
Caerdydd
CF11 1DA

Ffôn: 029 2053 7501

E-bost: TenancyManagement@cardiff.gov.uk